

# Cyngor Cymuned Eglwys Bach - Cofnodion Cyfarfod 03/10/16

**PRESENNOL:** Cyngorwyr: Gwyn Morris Jones (yn y Gadair), Gwilym Williams, Arthur Williams, John Lloyd Williams, Gwyn Williams, Ceri Leeder, John Emlyn Jones (cofnodwr)

**YMDDIHEURIADAU:** Cyngorwyr: Austin Roberts a Katherine Himsworth

**DATGAN DIDDORDEB:** DIM

**COFNODION Y CYFARFODYDD DIWETHAF:** Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y ddu gyfarfod diwethaf (05/09/16 - arferol) a (12/09/16 - arbennig).

**MATERION YN CODI:**

**Trofa Tŷ Gwyn** - Trafodwyd y llechfeddiant posib ger trofa Tŷ Gwyn.

**Penderfynwyd:** Gofyn i'r Cyng. Austin Roberts i ymholi ymellach gyda'r gofrestrfa tir.

**Arwydd Y Berllan** - Darllenwyd e- bost oddi wrth Swyddog Trwyddedu CBS Conwy yn cadarnhau fod yr arwydd yn cael ei symud o safle'r cyngor yn Llanrwst i Fochdre a bod ymgais i'w wneud i'w drwsio.

**Polyn Fflag** - Does dim byd pellach i'w adrodd am y mater ar hyn o bryd. Mynegodd y Cyng. Gwyn Williams ei fod wedi dod o hyd i fanylion y resin gwreiddiol a ddefnyddiwyd i'w osod.

**Penderfynwyd:** Gofyn i'r Cyng. Austin Roberts i fwrw 'mlaen gyda'r mater ar frys oherwydd pryderon parthed iechyd a diogelwch.

**Ffens ar Ian yr afon gyferbyn â'r ysgol** - Nid oes mwy o wybodaeth wedi dod i law parthed y mater yma. Roedd rhai o'r cynghorwyr o'r farn nad oedd gwely'r afon wedi erydu fel y dywedwyd yn y llythyr odd wrth y Cyngor Sir. Mynegwyd pryder hefyd gan rai o'r cynghorwyr y byddai gosod cewyll cerrig ger y lan yn effeithio ar lif yr afon pan fo'n llawn.

**Penderfynwyd:** Gofyn i'r Cyng Austin Roberts i ddilyn y mater gyda'r Cyngor Sir.

**Swydd Clerc** - Mae'r swydd wedi ei hysbysebu yn Y Pentan a'r Odyn. Cafwyd ar ddeall fod un person wedi cysylltu gyda'r Cyng. Austin Roberts yn mynegi diddordeb a'i fod yn disgwl derbyn llythyr cais gan y person yma.

**Ceisiadau Cynllunio** - Dim

**Taliadau** - Clerc (Medi) £174.99  
Cyllid a Thollau EM (trehth ar gyflog mis Medi) £37.50  
Sue Hayward (glanhau toiledau Medi) £98.00  
W D Williams (torri glaswellt mynwent y cyngor Medi) £330.

**Penderfynwyd:** Cysylltu gyda'r banc i ofyn am mandad newydd er mwyn sicrhau fod mwy o gynghorwyr â hawl i arwyddo sieciau.

**Balansau Cyfrifon y Cyngor ar 30/09/16** - Mae'r balansau fel a ganlyn:

- Cyfrif Cyffredinol £6,842.57
- Cyfrif Cadw £1918.70
- Cyfrif Angladdau £987.20.

**Noson Tân Gwyllt** - Trafodwyd y mater os oedd y cyngor am geisio am gymorthdal ar gyfer cynnal Noson Tân Gwyllt. Cafwyd ar ddeall, er fod y dyddiad cau wedi bod, fod posiblwrwydd o dderbyn rhywfaint o arian cyn belled â bod sesiwn yn cael ei drefnu i addysgu pobl ifanc am ganlyniadau cynnau Tân bwriadol.

**Penderfynwyd:** - Ymgeisio am gymorthdal o £350.

- *Y Cyngor i drefnu arddangosfa Tân gwylt eleni ar nos Wener Tachwedd 4ydd gyda'r gobaith bydd grŵp arall yn y gymuned yn trefnu y flwyddyn nesaf.*

- *Cyng. Gwyn Morris Jones i gael gair gyda phennaeth yr ysgol i ofyn a fyddai hi'n fodlon i'r Cyngor drefnu sesiwn addysgiadol i'r disgylion.*

- *Cyng. John Lloyd Williams i siarad â Swyddog Addysg y Gwasanaeth Tân os byddai hi'n fodlon cynnal sesiwn gyda disgylion yr ysgol.*

- *Gwneud casgliad ar y noson tuag at sefydlu blwch ar gyfer y diffibriliwr yn y pentref.*

**Y Diffibriliwr** - Mynegodd y Cyng. John Lloyd Williams ei fod wedi cael gair gyda ysgrifennydd Pwyllgor y Neuadd ac roedd yn hapus i'r cyngor osod y blwch yn y cyntedd ger drws y Neuadd. Mynegwyd pryder fod y lleoliad mewn man tywyll a byddai'n rhaid cael lamp yn gweithio gyda synhwyrydd. Cyflwynodd y Cyng Ceri Leeder adroddiad roedd hi wedi ei baratoi parthed y diffibriliwr fel a ganlyn:

i) Mae'r diffibriliwr yn cael ei gadw ar hyn o bryd ym mhorth un o'r tai ger y neuadd. Nid yw'n ymarferol i'w gadw yna am lawer mwy o amser.

ii) Nid yw'r diffibriliwr wedi cael ei ddefnyddio hyd yma na chael gwasanaeth.

iii) Eiddo yr Ymatebwyr Cyntaf yw'r diffibriliwr ar hyn o bryd a thalwyd amdano gyda cyfraniadau a chymorthdal gan y Cyngor Cymuned. Gan nad oes gwasanaeth Ymatebwyr Cyntaf yn y pentref ar hyn o bryd, oherwydd nifer o resymau, mae nhw'n fodlon trosglwyddo'r diffibriliwr i berchnogaeth y Cyngor Cymuned.

iv) Mae Achub Calon y Dyffryn yn fodlon darparu dau gwrs sef:

- Cwrs dwys (tua 40 awr) ar gyfer Ymatebwyr Cyntaf.
- Cwrs sut i ddefnyddio'r diffibriliwr (tua 2 awr).

**Penderfynwyd:** - *Cynigiodd y Cyng Gwyn Morris Jones y byddai'n gwneud y gwaith trydanol am ddim gan arbed oddeutu £200 i'r Cyngor. Mynegwyd diolchgarwch iddo gan weddill y cynghorwyr.*

- *Cyng. Ceri Leeder i drefnu, mewn cydweithrediad gyda Mr Tomos Hughes o'r Gwasanaeth Ambiwlans, hyfforddiant ar gyfer (i) Ymatebwyr Cyntaf a (ii) sut i ddefnyddio'r diffibriliwr.*

**Archwiliad ar gyfer y flwyddyn yn diweddu ar 31 o Fawrth 2016** - Darllenwyd prif argymhellion yr adroddiad. Nodwyd mai mân faterion oedd angen gweithredu arnynt a mynegwyd gwerthfawrogiad y Cyngor o waith y Clerc parthed materion ariannol.

**Penderfynwyd:** - *Cyng. Ceri Leeder i drefnu bod copi o'r adroddiad yn cael ei roi i Marian Pryor.*

- *Bod yr hysbyseb o rybudd o ganlyniad archwiliad yn cael ei arddangos mewn man cyhoeddus rhag blaen yn dilyn holi ple mae'r dogfennau i'w gweld.*

**Gohebiaeth** - Rhybudd o reolaeth dros dro ar drafnidiaeth ar Ffordd Gyffylog ar gyfer ail wynebu'r ffordd

- Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru - unrhyw sylwadau i'w hanfon cyn Rhagfyr 5ed.

- Primymau Treth y Cyngor ac Eiddo Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi yng Nghymru.

**Penderfynwyd:** Cysylltu gyda CBS Conwy yn datgan bod y Cyngor yn cytuno gyda'r bwriad o godi premiwm ar yr eiddo sy'n syrthio dan y dosbarthiadau diffiniedig.

- Cynllun Bags of Help Cymru i weddnewid mannau gwyrdd.

**Penderfynwyd:** Cysylltu gyda Geraint Hughes o Groundwork Gogledd Cymru i ofyn iddo ddod i gael sgwrs gyda'r cynghorwyr parthed beth fyddai'n bosib yng nghymuned Eglwys Bach.

Creu Menter. Nodwyd fod y Cyngor wedi derbyn yr ohebiaeth.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf** - Tachwedd 7fed 2016 am 7:30

Daeth y cyfarfod i ben am 9:20

# **Eglwys Bach Community Council- Minutes of meeting 03/10/16**

**PRESENT:** Councillors: Gwyn Morris Jones (in the chair), Gwilym Williams, Arthur Williams, John Lloyd Williams, Gwyn Williams, Ceri Leeder, John Emlyn Jones (reporter)

**APOLOGIES:** Councillors: Austin Roberts a Katherine Himsorth

**DECLARATION OF INTEREST:** NONE

**MINUTES OF LAST MEETING:** Minutes of the two previous meetings were found correct and signed (05/09/16 -regular) a (12/09/16 - special).

**MATTERS ARISING:**

**Tŷ Gwyn Corner** - The possible encroachment at Tŷ Gwyn corner was discussed.

***Resolved:*** Ask Cllr. Austin Roberts to make further enquiries with the Land Registry

**Y Berllan sign** - An e-mail was read from the Conwy CBC's licensing officer confirming that the sign is being moved from the council's site in Llanrwst to Mochdre an attempt will be made to repair it.

**Flag Pole** - Nothing further to report on the matter at present. Cllr. Gwyn Williams noted that he has found the details regarding the original resin used to put it in place.

***Resolved:*** To ask the Cllr. Austin Roberts to proceed with the matter as a matter of urgency as there are health and safety issues.

**Fence on the river bank opposite the school**- No more details have come to light regarding this. Some of the councillors were of the opinion that the bed of the river has not eroded as indicated in a letter from the County Council. Some of the councillors also noted their concern that the placement of gabions on the river bank would effect the flow of the river when full.

***Resolved:*** To ask Cllr. Austin Roberts to take the matter up with the County Council

**Post of Clerk** - The post has been advertised in Y Pentan and Yr Odyn. It is understood that one person has contacted Cllr. Austin Roberts showing an interest in the post and he is awaiting a letter of application from this person.

**Planning Applications** - None

**Payments**- Clerk (September) £174.99  
HRMC (tax on September's salary ) £37.50  
Sue Hayward (cleaning the toilets - September) £98.00  
W D Williams (cutting the grass in the public cemetery ) £330.

***Resolved:*** To contact the bank asking for a new mandate form in order that more councillors are able to sign cheques.

**Balances of the Council's Accounts as of 30/09/16** - The balances are as follows:

- Current Account £6,842.57
- Deposit Account £1918.70
- Cemetery Account £987.20.

**Bonfire Night-** The matter of whether the Council is going to apply for a grant towards Bonfire Night was discussed. It was understood that even though the closing date has expired, but there is a possibility that some money is available if a session is held for young people to educate them about the consequences of intentional fire raising.

**Resolved:** - *Apply for a grant of £350.*

*- The Council to arrange a firework display this year on Friday evening November 4th with the expectation that another group in the village take it on next year.*

*- Cllr. Gwyn Morris Jones to talk to the headteacher of the school to see if she would be willing for the Council to arrange an educational session for the pupils.*

*- Cllr. John Lloyd Williams to contact the Fire Service Education Officer to see if she would be willing to provide a session i the school.*

*- Take up a collection on the night towards establishing a box for the village defibrillator.*

**The Defibrillator** - Cllr. John Lloyd Williams informed the meeting that he has had a word with the secretary of the Hall Committee and he was happy for the defibrillator box to be located in the porch by the hall door. Concerns were raised that the location is dark and a lamp with a sensor would be needed. Cllr. Ceri Leeder presented a report as follows:

i)At present the defibrillator is kept in a porch of one of the houses near the hall. It is not practical to keep it there for much longer.

ii)The defibrillator has not been used and has not been serviced.

iii)At present he defibrillator is the property of the First Responders and was paid for by contributions and a grant from the Community Council. As there is no FirstResponders service at present in the village, due to a number of reasons, they are willing to transfer ownership to the Community Council.

iv)Achub Calon y Dyffryn are prepared to hold two courses:

- An intensive (about 40 hours) course for First Responders
- A course on how to use the defibrillator.

**Resolved:** - *Cllr. Gwyn Morris Jones offered to do the electrical work for free, therefore saving about £200 for the Council. The other councillors noted their appreciation of this offer.*

*- Cllr. Ceri Leeder to arrange in conjunction with Mr Tomos Hughes from the Ambulance Service courses for: (i) First Responders and (ii) how to use the defibrillator.*

**Audit for the year ending on 31st march 2016**- The main recommendations of the report were read. It was noted that only minor matters required action and the Council's appreciation of the work of the Clerk was also noted.

**Resolved:** - *Cllr. Ceri Leeder to arrange for Marian Pryor to be given a copy of the report.*

*- That a notice regarding the outcome of the audit be placed in a public place together with the details of where the documents can be viewed.*

**Correspondence** - Notice of Temporary Traffic Regulation on Ffordd Gyffylog for carriageway resurfacing

- The 2018 Review of Parliamentary Constituencies in Wales- any representations to be sent by December 5th.

- Council Tax Premiums on Long Term Empty Properties and Second Homes in Wales.

**Resolved:** Contact Conwy CBC noting that the Council is in agreement with the intention to apply a premium for those properties falling into each of the defined classes.

- Bags of Help Scheme - to transform green sites.

**Resolved:** Contact Geraint Hughes of Groundwork Cymru to ask him whether he would be willing to give a talk to the councillors regarding what would be possible in Eglwys bach Community.

-Creating Enterprise. It was noted that the council had received the correspondence.

**Date of next meeting**- November 7th 2016 at 7:30

The meeting closed at 9:20